DYFODOL I'R IAITH

# Sylwadau ar ystyried y Gymraeg mewn materion cynllunio

**Mai 2014**

**Cyswllt:**

**Elin Wyn**

**Swyddog Polisi Dyfodol**

**029 2056 1192**

**07811 806760**

elin@dyfodol.net

**Dyfodol i'r Iaith**

Mae Dyfodol i'r Iaith yn fudiad amhleidiol sy'n gweithredu er lles yr iaith Gymraeg. Nod y mudiad yw dylanwadu drwy ddulliau cyfansoddiadol ar sylwedd a chynnwys polisïau cyhoeddus a deddfwriaeth er mwyn hybu twf a ffyniant y Gymraeg ym mhob maes polisi. Bydd yn gweithredu er budd Cymru a'i phobl, gan ennill cefnogaeth a pharch i'r iaith a sicrhau bod y Gymraeg yn fater byw ar yr agenda gwleidyddol.

*Mae'r papur hwn yn ychwanegiad i'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan Dyfodol i'r Iaith i'r Bil Cynllunio a dylid darllen y ddau bapur gyda'i gilydd. Mae ymateb Dyfodol i'r Bil Cynullio i'w weld yma: [http://www.dyfodol.net/2014/02/28/ymateb-ir-bil-cynllunio/](http://www.dyfodol.net/2014/02/28/ymateb-ir-bil-cynllunio/)*

---

## 1. Cefndir

1.1. Mae Dyfodol i'r Iaith yn croesawu'r datganiad clir gan Lywodraeth Cymru yn ei brif bolisi cynllunio y dylai'r system cynllunio defnydd tir ystyried anghenion a buddiannau'r Gymraeg, ac wrth wneud hynny gyfrannu at ei lles.

1.2. Dyma'r tri pharagraff allweddol parthed yr iaith Gymraeg yn y polisi cynllunio Cymru: [1]

*4.13 Cefnogi'r Gymraeg*
*4.13.1 Mae'r Gymraeg yn rhan o wead cymdeithasol a diwylliannol Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod yr iaith yn cael ei chefnogi a'i hannog i ffynnu fel iaith llawer o gymunedau ledled Cymru. Mae 'Iaith Fyw: Iaith Byw' yn nodi sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflawni ei nod i sicrhau mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd bob dydd. Bydd lles yr iaith yn y dyfodol ledled Cymru yn dibynnu ar amrywiaeth eang o ffactorau, yn enwedig addysg, newid demograffig, gweithgareddau cymunedol a sylfaen economaidd gadarn i gynnal cymunedau cynaliadwy sy'n ffynnu.* ***Dylai'r system cynllunio defnydd tir ystyried anghenion a buddiannau'r Gymraeg ac wrth wneud hynny gall gyfrannu at ei lles.***
*4.13.2 Dylai pob awdurdod cynllunio lleol ystyried a oes ganddynt gymunedau lle y mae'r defnydd o'r Gymraeg yn rhan o'r gwead cymdeithasol a, lle y mae hynny'n wir, mae'n briodol ystyried hynny wrth lunio polisïau defnydd tir. Yng nghyfiawnhad rhesymedig eu cynlluniau datblygu, dylai pob awdurdod cynllunio lleol gynnwys datganiad ar y modd y maent wedi ystyried anghenion a buddiannau'r Gymraeg wrth baratoi'r cynllun, ac ym mha fodd y mae unrhyw bolisïau sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn rhyngweithio â pholisïau eraill y cynllun.*
*4.13.3 Dylai fod yn nod gan awdurdodau cynllunio lleol ddarparu ar gyfer tai sydd wedi eu dosbarthu'n eang ac sy'n cael eu datblygu'n raddol, gan ystyried gallu'r gwahanol ardaloedd a'r cymunedau i gymathu'r datblygiad heb erydu safle'r Gymraeg. Gallai polisïau priodol mewn*

[1] http://wales.gov.uk/docs/desh/publications/121107ppwedition5cy.pdf

*cynlluniau datblygu ar raddfa gyffredinol a lleoliad datblygiadau newydd a'u hadeiladu'n raddol helpu i fodloni'r nod hwn. Gallai polisïau sy'n ymwneud â thai fforddiadwy hefyd fod o gymorth. Serch hynny, ni ddylai polisïau geisio cyflwyno unrhyw elfen o wahaniaethu rhwng unigolion ar sail eu gallu ieithyddol, ac ni ddylent geisio rheoli pwy sy'n byw yn y tai ar sail ieithyddol.*

1.3. Y broblem ar hyn o bryd yw nad yw dyhead y Llywodraeth i weld lles y Gymraeg yn cael ei ystyried mewn materion cynllunio yn cael ei weithredu ar lawr gwlad. Mae hon yn broblem sydd wedi bodoli ers blynyddoedd lawer ac mae nifer o unigolion, arbenigwyr cynllunio, awdurdodau cynllunio a sefydliadau eraill wedi ceisio mynd i'r afael â hyn gydag amrywiol ganlyniadau.

1.4. Mae'r papur hwn yn amlinellu syniadau Dyfodol i'r Iaith am sut y gellid mynd ati yn ymarferol i roi ystyriaeth i'r Gymraeg mewn materion cynllunio. Mae'n awgrymu ym mha amgylchiadau y dylid ystyried y Gymraeg mewn materion cynllunio a threfn newydd o ddynodi ardaloedd o sensitifrwydd ieithyddol.

## 2. Camau Gweithredu – Bil Cynllunio

2.1. Y cam cyntaf yw bod cymal yn y Bil Cynllunio arfaethedig yn sicrhau ei bod yn ddilys i'r iaith Gymraeg fod yn ystyriaeth mewn materion cynllunio. Ar hyn o bryd canllaw yn unig sy'n caniatáu ystyried yr iaith Gymraeg mewn cynllunio ac mae canllaw yn agored i'w anwybyddu gan ddatblygwyr ac awdurdodau cynllunio neu ei herio mewn llys barn.

## 3. Dynodi Ardaloedd

3.1. Yr ail gam yw penderfynu ym mha ardaloedd o Gymru y mae hi'n hanfodol neu yn ddymunol i ystyried y Gymraeg mewn materion cynllunio.

3.2. Pan fo awdurdodau cynllunio a datblygwyr yn ystyried materion yn ymwneud â'r amgylchedd mewn materion cynllunio maent yn gallu cyfeirio at ddynodiad arbennig mewn ardaloedd penodol, er enghraifft dynodiad ardal fel Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae'r dynodiad hwn yn gosod amodau arbennig i amddiffyn yr ardal honno mewn achosion cynllunio.

3.3. Awgrym Dyfodol i'r Iaith yw bod corff statudol yn cael ei greu i ddynodi ardaloedd o Gymru yn Ardaloedd o Sensitifrwydd Ieithyddol. Gallai'r corff hwn fod yn gorff newydd, neu fe ellid gosod cyfrifoldeb ychwanegol a dyrannu cyllideb bwrpasol i Gomisiynydd y Gymraeg i fod yn gyfrifol am ddynodi'r ardaloedd hyn. Byddai statws cyfreithiol yr ardaloedd hyn yn debyg i ardaloedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

3.4. Rydym yn rhagweld y byddai'r gwaith o ddynodi yn digwydd fesul ward etholaethol gan ddefnyddio data am nifer y siaradwyr Cymraeg yn y ward, newidiadau yn nifer y siaradwyr Cymraeg dros gyfnod, rhagamcanion twf poblogaeth ac ystadegau eraill fel sail i bennu lefel sensitifrwydd ieithyddol y ward. Tybiwn y byddai angen gwahanol lefelau o sensitifrwydd e.e wardiau lle mae dros 60% yn siaradwyr Cymraeg; rhwng 40% a 60% fyddai'r lefel nesaf; rhwng 20% a 40%; ac yn olaf o dan 20%. Rhagwelwn, er enghraifft y

byddai ystyried effaith datblygiad tai ar y Gymraeg yn ddymunol yn hytrach na gorfodol mewn ardaloedd â llai nag 20% o siaradwyr Cymraeg. Ymhob ardal arall byddai ystyried effaith unrhyw ddatblygiad ar y Gymraeg yn orfodol.

3.5. Gan fod natur cymunedau yn gallu newid yn sydyn byddai'r corff dynodi yn adolygu statws Ardaloedd o Sensitifrwydd Ieithyddol bob pum mlynedd.

## 4. Casglu Tystiolaeth

4.1. Un o wendidau pennaf y drefn gynllunio ar hyn o bryd yw nad oes digon o dystiolaeth empirig o effaith datblygiadau ar y Gymraeg. Byddai cyfrifoldeb ar y corff dynodi i adolygu effaith datblygiadau newydd mewn Ardaloedd o Sensitifrwydd Ieithyddol. Golyga hyn y bydd cronfa o dystiolaeth yn cael ei chasglu dros gyfnod o amser fydd yn rhoi sail gadarnach i Asesiadau Effaith Ieithyddol.

4.2. Dylai'r corff dynodi hefyd adolygu effaith datblygiadau yn y gorffennol, gan gynnwys datblygiadau gafodd eu caniatáu gan yr Arolygiaeth Gynllunio er bod yr iaith Gymraeg yn elfen pan gafodd caniatâd ei wrthod yn wreiddiol e.e. yn 1999 gwrthododd Cyngor Sir Gwynedd gais i godi stad o dai ym mhentref Bryncrug oherwydd y byddai'r datblygiad yn cael effaith ar gymeriad y gymuned leol. Cafodd apêl y datblygwr ei chaniatáu gan yr Arolygiaeth Cynllunio. Enghraifft gyfredol yw datblygiad Penybanc yn Sir Gaerfyrddin.

4.3. Byddai'r gronfa o dystiolaeth yn adnodd fyddai yn agored i awdurdodau cynllunio, datblygwyr ac eraill i gyfrannu sylwadau ac i gyfeirio ati wrth baratoi asesiadau effaith ieithyddol.

## 5. Amgylchiadau Asesiad Ieithyddol a Chreu Offeryn Asesu

5.1. Fe fyddai'n afresymol galw am asesiad effaith ieithyddol ar gyfer pob un cais cynllunio mewn Ardal o Sensitifrwydd Ieithyddol. Er enghraifft, ni fyddai disgwyl i unigolyn sy'n berchen tŷ orfod gwneud asesiad effaith ieithyddol wrth gyflwyno cais cynllunio i godi estyniad.

5.2. Awgrymwn nifer o amgylchiadau penodol lle byddai asesiad iaith mewn Ardal o Sensitifrwydd Ieithyddol yn angenrheidiol:

- Os yw nifer yr aneddau mewn un datblygiad yn cynyddu maint y pentref / y gymuned o fwy na 5% neu 30 o dai, pa un bynnag yw'r lleiaf
- Mewn datblygiadau llai, neu geisiadau am aneddau unigol, os yw nifer yr aneddau gwag yn y pentref / y gymuned yn fwy nag 20%
- Dylid ystyried beth yw amcan bris y farchnad ar gyfer yr annedd / aneddau ac a yw'r pris o fewn cyrraedd cyfartaledd yr aelwydydd yn y pentref / y gymuned.
- Mewn ceisiadau am ddatblygiadau cyflogaeth a yw'r datblygiad yn cwrdd ag

anghenion swyddi lleol yn bennaf.

5.3. Mewn amgylchiadau pan fo angen Asesiad Ieithyddol dylid sefydlu Offeryn Asesu sy'n defnyddio methodoleg gydnabyddedig sydd wedi ei chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a/neu Comisiynydd y Gymraeg. Bydd yr Offeryn hwn yn rhoi sylw i faterion a grybwyllwyd gennym uchod ac i unrhyw fater arall y bernir ei fod yn berthnasol.

## 6. Arwyddion a Hysbysebion

6.1. Mae hysbysebion ac arwyddion yn cyfrannu at gymeriad gweledol a chymdeithasol ardal. Mae'n bosibl hybu'r defnydd o'r Gymraeg drwy'r drefn gynllunio yn enwedig wrth ganiatáu arwyddion a hysbysebion.

6.2. Mewn Ardaloedd o Sensitifrwydd Ieithyddol o dros 40% o siaradwyr Cymraeg dylai'r awdurdodau cynllunio wrthod arwyddion uniaith Saesneg.

6.3. Mewn Ardaloedd o Sensitifrwydd Ieithyddol o dros 40% o siaradwyr Cymraeg dylid defnyddio enwau Cymraeg ar strydoedd mewn datblygiadau tai newydd.

6.4. Bydd pob awdurdod cynllunio yn disgwyl i fusnesau newydd osod arwyddion dwyieithog.

## 7. Lliniaru

7.1. Mae modd hefyd ddefnyddio mesurau lliniaru i hybu'r defnydd o'r Gymraeg mewn ardaloedd penodol. Gall hyn fod yn amod cynllunio neu drwy ddefnydd o Adran 106 a'r Ardoll Seilwaith Cymunedol.

7.2. Yn ein tystiolaeth i'r ymgynghoriad ar y Bil Cynllunio awgrymodd Dyfodol i'r Iaith y dylid cynnwys cymal yn y Bil sy'n caniatáu defnyddio arian a glustnodir o dan Adran 106 a'r Ardoll Seilwaith Cymunedol i hyrwyddo'r Gymraeg.

7.3. Dyma enghreifftiau o sut y gallai mesurau lliniaru fod o fudd i'r Gymraeg yn lleol a hybu'r defnydd o'r Gymraeg:

- Darparu tai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol
- Cytundeb i ddarparu tai ar gyfer pobl ar y gofrestr tai lleol
- Contractau llafur lleol
- Cefnogaeth a chyllid i fentrau hyfforddi sgiliau lleol
- Cefnogaeth a chyllid i Fentrau Iaith lleol

- Cefnogaeth a chyllid i weithgareddau cymunedol drwy gyfrwng y Gymraeg
- Cefnogaeth a chyllid i ysgolion Cymraeg lleol
- Darparu pecyn ymwybyddiaeth iaith i ddarpar brynwyr tai
- Darparu a chyllido gwersi iaith i staff mewn achosion o ddatblygiadau cyflogaeth
- Darparu a chyllido gwersi iaith i'r gymuned mewn achosion o ddatblygiadau tai mwy.
- Darparu a chyllido gwersi iaith dwys a phreswyl yn yr achosion uchod

Hyderwn y bydd yr awgrymiadau hyn yn cynorthwyo'r Llywodraeth i wireddu eu dyheadau o ran y Gymraeg a Chynllunio.

Elin Wyn

Mai 2014

elin@dyfodol.net